CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2679 (Cy. 220 )

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn diwygio ymhellach Reoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995 (O.S. 1995/3123), a hynny drwy ddiweddaru cyfeiriad at Gyfarwyddeb 95/31/EC ynghylch meini prawf purdeb penodol er mwyn ymdrin â diwygiad i'r cyfeiriad a wnaed gan Gyfarwyddeb 2000/51/EC i'r graddau yr amnewidiodd y Gyfarwyddeb honno fanylebau newydd ar gyfer syrop maltitol a thrwy ddiweddaru cyfeiriadau at Reoliadau 1995 mewn Rheoliadau eraill.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2679 (W. 220 )

# FOOD, WALES

## The Sweeteners in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

These Regulations, which apply to Wales, further amend the Sweeteners in Food Regulations 1995 (S.I. 1995/3123), by bringing up to date a reference to Directive 95/31/EC on specific purity criteria so as to cover its amendment by Directive 2000/51/EC insofar as that Directive substituted new specifications for maltitol syrup and by bringing up to date references to the 1995 Regulations in other Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2679 (Cy. 220 )

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *17 Gorffennaf 2001* |
| *Yn dod i rym* | *1 Awst 2001* |

Drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(a) ac (e), 17(1), 26(1) a (3), a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**a**) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi, sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**b**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001, deuant i rym ar 1 Awst 2001 a byddant yn gymwys i Gymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "y prif Reoliadau" ("the principal Regulations") yw Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995(**c**).

**Diwygio'r prif Reoliadau**

**3.**-(1) Caiff y prif Reoliadau eu diwygio, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn unol â pharagraff (2) isod.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o "Directive 95/31/EC" ychwanegir y geiriau ", and by

(a) 1990 p.16.

(b) Cafodd swyddogaethau "the Ministers" o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1995/3123: yr offerynnau diwygio perthnasol yw OS 1996/1477, 1997/814 a 1999/982.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2679 (W. 220 )

# FOOD, WALES

## The Sweeteners in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2001

| | |
|---|---|
| *Made* | *17th July 2001* |
| *Coming into force* | *1August 2001* |

In exercise of the powers conferred by sections 16(1)(a) and (e), 17(1), 26(1) and (3) and 48(1) of, and paragraph 1 of Schedule 1 to, the Food Safety Act 1990(**a**), and now vested in the National Assembly for Wales(**b**), the National Assembly for Wales, having had regard in accordance with section 48(4A) of that Act to relevant advice given by the Food Standards Agency and after consultation in accordance with section 48(4) and (4B) of that Act, hereby makes the following Regulations:

**Citation, commencement and application**

**1.** These Regulations may be cited as the Sweeteners in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2001, shall come into force on 1 August 2001 and shall apply to Wales.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations -

"the principal Regulations" ("y prif Reoliadau" ) means the Sweeteners in Food Regulations 1995(**c**)

**Amendment of the principal Regulations**

**3.**-(1) The principal Regulations shall be amended, in so far as they extend to Wales, in accordance with paragraph (2) below.

(2) In regulation 2(1) (interpretation), in the definition of "Directive 95/31/EC" there shall be added

(a) 1990 c.16.

(b) Functions of "the Ministers" under the Food Safety Act 1990, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (SI 1999/672).

(c) SI 1995/3123; relevant amending instruments are SI 1996/ 1477, 1997/814 and 1999/982.

Directive 2000/51/EC insofar as it relates to E965 (ii) syrup maltitol "(**a**) ar y diwedd.

**Diwygiad canlyniadol**

**4.-**(1) I'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth a bennir yn rheoliad 3(2) o Reoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) 1999(**b**) yn gymwys i Gymru, bydd effaith paragraff 3(1) o'r rheoliad hwnnw yn peidio mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno.

(2) Yn y darpariaethau a bennir ym mharagraff (3) isod, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, dehonglir cyfeiriadau at y prif Reoliadau fel cyfeiriadau at y Rheoliadau hynny fel y maent wedi'u diwygio hyd at a chan gynnwys y diwygiad a wneir gan y Rheoliadau hyn.

(3) Dyma'r darpariaethau y mae paragraff (2) uchod yn cyfeirio atynt -

(a) diffiniad "permitted sweetener" yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Jam a Chynhyrchion Tebyg 1991(**c**);

(b) diffiniad "additive" yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau Cynhyrchion Cig a Chynhyrchion Pysgod Taenadwy 1984(**d**);

(c) diffiniad "sweetener" yn Rhan II o Atodlen 1 (categorïau ychwanegion bwyd) i Reoliadau Labelu Ychwanegion Bwyd 1992(**e**);

(ch) diffiniad "sweetener" yn rheoliad 2(1) (dehnogli) o Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995(**f**); a

(d) Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(**g**) -

(i) paragraff (1) o reoliad 34 (bwydydd sy'n cynnwys melysyddion, siwgr ychwanegol a melysyddion, aspartame neu bolyolau); a

(ii) yn Atodlen 8 (disgrifiadau camarweiniol) Rhan I (cyffredinol), yr amod yng ngholofn 2 gyferbyn â'r disgrifiad "ice cream" yng ngholofn 1.

at the end the words " and by Directive 2000/51/EC insofar as it relates to E965 (ii) syrup maltitol "(**a**).

**Consequential amendment**

**4.-**(1) In so far as any provision specified in regulation 3(2) of the Sweeteners in Food (Amendment) Regulations 1999(**b**) extends to Wales, paragraph 3(1) of that regulation shall cease to have effect in relation to such provision.

(2) In the provisions specified in paragraph (3) below, in so far as they extend to Wales, references to the principal Regulations shall be construed as references to those Regulations as amended up to and including the amendment effected by these Regulations.

(3) The provisions to which paragraph (2) above refers are -

(a) the definition of "permitted sweetener" in regulation 2(1) (interpretation) of the Jam and Similar Products Regulations 1981(**c**);

(b) the definition of "additive" in regulation 2(1) (interpretation) of the Meat Products and Spreadable Fish Products Regulations 1984(**d**);

(c) the definition of "sweetener" in Part II of Schedule 1 (categories of food additives) to the Food Additives Labelling Regulations 1992(**e**);

(d) the definition of "sweetener" in regulation 2(1) (interpretation) of the Miscellaneous Food Additives Regulations 1995(**f**); and

(e) the Food Labelling Regulations 1996(**g**) -

(i) Paragraph (1) of regulation 34 (foods containing sweeteners, added sugar and sweeteners, aspartame or polyols); and

(ii) in Schedule 8 (misleading descriptions) Part I (general), the condition in column 2 opposite the description "ice cream" in column 1.

---

(a) Y cyfeiriad ar gyfer Cyfarwyddeb 2000/51/EC yw OJ Rhif L198, 4.8.2000, t.41.

(b) OS 1999 /982.

(c) OS 1981/1063: yr offerynnau diwygio perthnasol yw OS 1983/1211 a 1995/3123.

(d) OS 1984/1566: yr offerynnau diwygio perthnasol yw OS 1995/3123, 1995/3124 a 1995/3187.

(e) OS 1992/1978, yr offeryn diwygio perthnasol yw OS 1995/3123.

(f) OS 1995/3187, y ceir diwygiad iddo nad yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(g) OS 1996/1499 y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(a) The reference for Directive 2000/51/EC is OJ No. L198, 4.8.2000, p.41.

(b) SI 1999/982.

(c) SI 1981/1063; relevant amending instruments are SI 1983/1211 and 1995/3123.

(d) SI 1984/1566; relevant amending instruments are SI 1995/3123, 1995 /3124 and 1995/3187.

(e) SI 1992/1978, relevant amending instrument is SI 1995/3123.

(f) SI 1995/3187 to which there is an amendment not relevant to these Regulations.

(g) SI 1996/1499 to which there are amendments not relevant to these Regulations.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

17 Gorffennaf 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

17th July 2001

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2679 (Cy. 220 )

# BWYD, CYMRU

Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2679 (W. 220 )

# FOOD, WALES

The Sweeteners in Food (Amendment) (Wales) Regulations 2001

©℗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090300-5

9 780110 903002

**£2.00**

W/342/08/01 ON